**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

15 Mawrth 2024

Annwyl Mick

Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2024, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 11 Mawrth.

O ran slipiau cywiro, rydym unwaith eto yn croesawu'r eglurhad ychwanegol yr ydych wedi'i roi ynghylch y flaenoriaeth sydd ynghlwm wrth brosesu slipiau cywiro gan y Cofrestrydd Offerynnau Statudol. Er mwyn cynorthwyo gyda thryloywder cyffredinol y broses graffu ar offerynnau statudol, hoffem gynnig yr awgrym a ganlyn. Pan fo ymatebion i'n hadroddiadau yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio gyda'r Cofrestrydd Offerynnau Statudol i'r posibilrwydd o wneud y newid drwy slip cywiro, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r ymatebion yn cyfeirio at y ffaith, os cytunir ar slip cywiro, y bydd prosesu slipiau o'r fath yn cael ei flaenoriaethu'n briodol a'i weithredu gan y Cofrestrydd Offerynnau Statudol. Credwn y byddai hyn yn amlygu efallai na fydd slip cywiro ar gael ar unwaith ar legislation.gov.uk.

O ran is-ddeddfwriaeth a ddefnyddir i ddiwygio gwallau mewn offerynnau blaenorol, unwaith eto hoffem gynnig awgrym. Byddwch yn gwybod bod pob memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn cynnwys adran – adran 2 – a ddefnyddir i dynnu sylw at faterion a allai fod o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Pe bai offeryn yn cael ei osod gerbron y Senedd sy'n cywiro offeryn y craffwyd arno'n flaenorol, byddai'n ddefnyddiol inni pe bai modd nodi'r wybodaeth berthnasol yn adran 2, gan gynnwys rhif cyfeirnod yr offeryn a throednodyn i'n hadroddiad. Rydym yn nodi mai nod Llywodraeth y DU yw gwneud hynny, yn unol â'i Chanllaw i Baratoi Memoranda Esboniadol i Offerynnau Statudol (Rhan 3, paragraff 11.1, tudalen 19).

Mae'n bosibl y byddwn yn ysgrifennu eto er mwyn rhannu sylwadau ehangach ar y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i wneud Aelodau o'r Senedd yn ymwybodol o unrhyw gywiriadau a fydd yn cael eu gwneud i offeryn statudol drafft yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, ar ôl i'r drafft gael ei gymeradwyo gan y Senedd ond cyn iddo gael ei lofnodi gan un o Weinidogion Cymru.

Yn olaf, rydym yn ymwybodol y bydd ymddiswyddiad Prif Weinidog Cymru ac enwebu Prif Weinidog newydd yn golygu y byddwch chi, fel y Cwnsler Cyffredinol, yn rhoi'r gorau i ddal eich swydd. Gall hynny fod dros dro wrth gwrs. Os na chewch eich ailbenodi, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch ichi am eich ymgysylltiad cadarnhaol â'r Pwyllgor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a diolch ymhellach ichi am eich parodrwydd i drafod yn agored ac yn adeiladol y materion arwyddocaol a phwysig sy'n dod o fewn ein priod gyfrifoldebau. Os cewch eich ailbenodi, rydym wrth gwrs yn edrych ymlaen at barhau â'n hymgysylltiad adeiladol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd